

Ymgynghoriad Defra: Y Cynllun Ailyswirio Llifogydd – Rheoliadau

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Fy enw: Rachel Sion, Cynghorydd – Strategaeth Perygl Llifogydd

Sefydliad: Cyfoeth Naturiol Cymru

E-bost/ffôn: rachel.sion@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk / 02920 466052

Cynllun Ailyswirio Llifogydd Defra - Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r diffiniadau cywir i ddibenion y Cynllun (Y/N)? Os na, pa newidiadau fydddech chi'n eu hawgrymu?

Rydym yn gwneud dau bwynt mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Yn gyntaf, nid ydym yn cytuno â'r cynigion a geir ym Mlwch 2 o seilio argaeledd premiwm yswiriant llifogydd a chymorthdaliadau cysylltiedig ar system dreth gyngor Lloegr yn unig. Rydym yn argymhell yn gryf bod Llywodraeth y DU yn diwygio ei chynigion i greu system gyfiawn a theg sy'n ystyried amrywiadau mewn systemau treth cyngor ym mhedair gwlad y DU.

Mae taliadau a bandiau treth gyngor Cymru wedi eu diwygio gan ddefnyddio ffigurau ailbrisio tai 2003, tra bo Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dal i ddefnyddio ffigurau 1991. Er enghraifft, golyga hyn fod cartref 'Band A' yn Lloegr bellach yn gartref 'Band C' yng Nghymru. Hefyd, erbyn hyn ceir band ychwanegol yng Nghymru, sef 'Band I'. Gan fod lefel y cymhorthdal a gynigir gan Flood Re yn lleihau po fwyaf yw'r band treth gyngor, ac yn hepgor Band H (a Band I yng Nghymru) yn

gyfan gwbl, bydd cartrefi yng Nghymru yn amlwg dan anfantais gan y cynigion Flood Re a geir yn yr ymgynghoriad. Y rhai a fydd dan fwyaf o anfantais fydd y cartrefi hynny lle ceir incwm mwy cyffredin a rhai sydd ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Yn ail, rydym yn gweld y diffiniadau sydd ym Mluch 1 'paramedrau ar gyfer llifogydd' yn aneglur. Nid yw'n glir beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer llifogydd a allai ddigwydd wrth i lefel trwythiad godi (h.y. llifogydd dŵr daear) a thrwy hynny achosi llifogydd mewn eiddo ar lefel y ddaear neu lefel môr oddi isod. Hefyd, mae'r cynigion yn anodd i'w dehongli ar gyfer eiddo preswyl lle mae lefel y ddaear yn is na lefel y môr ac rydym yn argymhell fod y geiriad mewn perthynas â lefel y môr yn cael ei ail-eirio i'w wneud yn fwy eglur. Rydym yn ceisio cael cadarnhad, mewn achos o eiddo domestig lle ceir llifogydd sy'n uwch na lefel y ddaear yn yr eiddo ond sy'n is na lefel y môr, fod hyn yn cael ei yswirio dan y cynllun Ailyswirio Llifogydd.

Cynllun Ailyswirio Llifogydd Defra - Cwestiwn 10

Ydych chi'n cytuno bod angen diffiniad manylach ar gyfer llifogydd yn Nogfen y Cynllun (Y/N)? Os na, allwch chi roi manylion ynghylch yr hyn y dylid ei newid yn y dull a fabwysiadwyd ar gyfer "llifogydd"?

Ydym, rydym yn cytuno bod angen rhoi diffiniad mwy manwl ar gyfer llifogydd yn nogfen y cynllun. Rhaid i'r diffiniadau fod yn hawdd i'w deall i aelodau'r cyhoedd ac yn gyson â diffiniadau mewn deddfwriaeth arall. Rydym yn cynghori felly fod y Rheoliadau yn defnyddio'r un diffiniadau fel yr amlinellir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac yn yswirio pob math: afonol, arfordirol, dŵr daear, dŵr arwyneb, cronfa ddŵr a charthffos.